Cymhorthydd Gweinyddol a Threfn – Lefel 2

Cyfeirnod y Swydd: YLYS00070W1RDE
Lleoliad: Ysgol y Llys, Prestatyn
Cyflog: Gradd 3 - (£13,946 - £14,510)
Oriau: 32.5 awr yr wythnos, Tymor Ysgol yn unig
Math o gytundeb: Swydd Cyfnod Penodol 01/09/2021 – 31/08/2022
Swydd Allanol

Rydym yn chwilio am Gynorthwyydd Gweinyddol a Threfn sydd â sgiliau trefnu ardderchog. Bydd deilydd y swydd yn sicrhau gweinyddiaeth effeithlon drwy ddarparu gwasanaeth gweinyddol amrywiol yn yr ysgol i sicrhau gweinyddiaeth effeithlon.

Mae'n hanfodol fod gennych sgiliau Technoleg Gwybodaeth rhagorol a gwybodaeth sylfaenol am ddefnyddio systemau cyfrifiadurol. Bydd rhaid i ymgeiswyr fod â sgiliau rhyngbersonol, cyfathrebu a threfnu ardderchog ac yn gallu cyrraedd targedau o dan bwysau ac yn unol ag amserlenni tynn. Mae'n hanfodol bwysig eich bod chi'n medru cynllunio, trefnu a blaenoriaethu eich llwyth gwaith eich hun.

Mae'n hanfodol bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn medru cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig ynghyd â dangos ymrwymiad amlwg tuag at weithio mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.

Os hoffech chi drafod unrhyw agwedd o'r swydd dylai darpar-ymgeiswyr gysylltu â'r Pennaeth am sgwrs anffurfiol ar 01745 853019

Dyddiad Cau: Dydd Llun 20/09/2021

Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd hon, gwnewch gais ar-lein trwy gwefan Sir Ddinbych www.sirddinbych.gov.uk/. Am ddulliau eraill o wneud cais, cysylltwch ā Rhian Davies ar 01745 582611 neu drwy e-bost swyddi@ysgolglanclwyd.co.uk
Rhaid i ymgeiswyr gwblhau ein ffurflen gais i gael ei ystyried. Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos I'r dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiatāol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweliad.

This Advert is for an Administration Assistant at Ysgol Y Llys for which the ability to speak Welsh is an essential requirement

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.